# Iechyd a Diogelwch

## Adroddiad Blynyddol

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

2022/2023

# CRYNODEB O'R DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

## CYNEFINO (IECHYD A DIOGELWCH) I STAFF NEWYDD

**66.9%**

(*232 o 347 aelod staff newydd*)

**Y tu ôl i'r targed**

## DEFNYDDWYR CYFRIFIADURON



**50.7%**

Cwblhau Hyfforddiant a Hunanasesiad

**Y tu ôl i'r targed**


## DAMWEINIAU A ARWEINIODD AT ANAFIADAU I AELODAU STAFF



**21.5**

Damweiniau fesul bob 1000 o weithwyr

**Yn cyd-fynd â pherfformiad hanesyddol**



## CYFRADD ABSENOLDEB SALWCH AELODAU STAFF

**5.2**

Dyddiau a gollwyd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn

**0.7 diwrnod yn is na'r sector addysg uwch**

Fersiwn a Gyhoeddwyd
Iechyd, Diogelwch a Lles y Campws
www.bangor.ac.uk/hss
Fersiwn 1

**Mynegai** | **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| | Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb | |
| 1. | Polisïau a Dogfennau Allweddol Iechyd a Diogelwch | 2 |
| 2. | Archwiliadau, Perfformiad, Dadansoddi | 2 |
| 3. | Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygu Statudol | 4 |
| 4. | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 4 |
| 5. | Damweiniau a Digwyddiadau | 6 |
| 6. | Absenoldeb oherwydd Salwch Ymysg Staff | 11 |
| 7. | Larymau Tân yn Canu | 15 |
| 8. | Achosion Sifil i Hawlio Iawndal (cysylltiedig ag iechyd a diogelwch) | 16 |
| 9. | Ystadegau’r Wefan | 16 |

## 1. POLISÏAU A DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH ALLWEDDOL

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r dogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol 'allweddol' newydd, a ddiwygiwyd ac a ddiddymwyd, ac a gyflwynwyd, eu dileu neu eu haddasu yn ystod y flwyddyn.

### • POLISÏAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisïau newydd yn 2022/23. Adolygwyd y polisïau canlynol yn ystod y flwyddyn, ac ni ddyrannwyd unrhyw gyfrifoldebau nac atebolrwydd newydd:

- Meysydd Electromagnetig.
- Gweithrediadau Trin â Llaw.
- Diogelwch Offer Trydanol.
- Defnyddio Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn Ddiogel.
- Asesiad Risg.
- Diogelwch Bysiau Mini.
- Dim Ysmygu.
- Defnyddio Cyfrifiaduron yn Ddiogel
- Projectau Deifio'r Brifysgol

### • POLISÏAU A DDIDDYMWYD

Ni chafodd unrhyw bolisïau iechyd a diogelwch eu diddymu yn 2021/22.

## 2. ARCHWILIADAU, PERFFORMIAD, DADANSODDI

Crynodeb o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau sefydliadol, y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol ac agweddau rheoli risg.

### • ARCHWILIADAU AC AROLYGIADAU

Ni ailddechreuwyd amserlen archwilio'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol. Mae archwiliadau a chymorth archwilio yn destun trafodaeth a chynllunio at y dyfodol.

### • CRYNODEB PERFFORMIAD BLYNYDDOL COLEGAU/GWASANAETHAU (HUNANWERTHUSIAD)

Adroddodd pob coleg, a gwasanaeth proffesiynol, ynghyd ag Undeb y Myfyrwyr, MSParc a'r Ganolfan Rheolaeth, ar eu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch am y flwyddyn.

**CYMHARU PERFFORMIAD**



Perfformiad y flwyddyn flaenorol mewn cromfachau at ddibenion cymharu, lle bo'n berthnasol.

| Eitem | % | Naratif |
|---|---|---|
| Dogfennaeth: **Polisi Iechyd a Diogelwch** | **93%** (85%) | Mae gan bob coleg a'r 11 gwasanaeth proffesiynol bolisi iechyd a diogelwch |
| Dogfennaeth: **Asesiad Risg Cyffredinol:** | **93%** (77%) | Mae gan bob coleg a'r 11 gwasanaeth proffesiynol asesiad risg cyffredinol |
| Deon/cyfarwyddwr yn cwrdd â swyddog/cydlynydd iechyd a diogelwch | **80%** (85%) | ○ Mae pennaeth pob coleg a 9 cyfarwyddwr gwasanaeth proffesiynol yn cwrdd â'u swyddog / cydlynydd iechyd a diogelwch<br>○ 4 (1) = pob wythnos, 1 (1) = pob pythefnos, 5 (2) = unwaith y mis, 2 = amlder arall |
| Pwyllgor / corff iechyd a diogelwch | **100%** (92%) | ○ Mae gan 3 choleg a 5 gwasanaeth bwyllgor iechyd a diogelwch<br>○ Mae 7 gwasanaeth yn gweithredu heb bwyllgor iechyd a diogelwch, ond mae mecanweithiau cadarn eraill yn bodoli i drafod iechyd a diogelwch |
| Cadeirydd y pwyllgor/corff iechyd a diogelwch | **100%** | Pennaeth y coleg/cyfarwyddwr neu enwebai'n cadeirio pob coleg/gwasanaeth |
| Ymgynghori â'r Staff | **93%** (100%) | Datganodd bob coleg a'r 11 gwasanaeth proffesiynol eu bod yn ymgynghori â'r staff ar faterion iechyd a diogelwch, lle bo'n berthnasol. |
| Archwiliadau Iechyd a Diogelwch | **60%** | ○ Cadarnhaodd 2 goleg (3 choleg) a 7 (9) gwasanaeth bod y pennaeth/cyfarwyddwr wedi cymryd rhan mewn archwiliadau iechyd a diogelwch<br>○ Datganodd 2 wasanaeth bod y cydlynydd iechyd a diogelwch wedi cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch<br>○ Mae un gwasanaeth yn newydd, a bwriedir |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnal archwiliadau yn 2024 |
| Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd | **80%** (73%) | Adroddodd 12 bod pob aelod staff wedi eu cynefino'n lleol, adroddodd 3 bod rhai wedi eu cynefino |
| Diogelwch rhag Tân | **93%** | Cadarnhaodd yr holl golegau a gwasanaethau bod ganddynt drefniadau yn eu lle i roi gwybod i staff a myfyrwyr am y camau y dylent eu cymryd os bydd larwm tân yn canu |

Rhoddir sgôr dangosol i golegau a gwasanaethau gan ddefnyddio 13 mesur, sy'n cynnwys polisi, ymgynghori a chyfranogiad y pennaeth a'r cyfarwyddwr mewn archwiliadau iechyd a diogelwch. Darperir perfformiad y flwyddyn flaenorol (yn erbyn 18 mesur) mewn cromfachau, lle bo'n berthnasol.

| **Coleg** | **% Perfformiad** |
|---|---|
| Coleg Meddygaeth ac Iechyd | **80%** (90%) |
| Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg | **87%** (95%) |
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas | **87%** (95%) |
| **Gwasanaeth Proffesiynol** | **% Perfformiad** |
| Gwasanaethau Campws | **100%** (89%) |
| Canolfan Bedwyr | **100%** (78%) |
| Gwasanaethau Digidol | **85%** (94%) |
| Gwasanaethau Cyllid | **46%** (56%) |
| Adnoddau Dynol | **85%** (89%) |
| Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu | **62%** (50%) |
| Gwasanaethau Myfyrwyr. | **92%** (89%) |
| Undeb y Myfyrwyr | **92%** (94%) |
| Y Ganolfan Rheolaeth | **100%** (100%) |
| Swyddfa'r Is-ganghellor | **77%** |
| Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil | **100%** |
| Parc Gwyddoniaeth Menai | **85%** |

- **PERYGLON BIOLEGOL**

Mae Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol y brifysgol yn parhau i oruchwylio agweddau iechyd a diogelwch ar waith biolegol a GM, gyda chyfarfodydd wedi cynyddu erbyn hyn i ddwywaith y flwyddyn.

Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau bioberygl andwyol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd sawl arolygiad yn 2023 gyda safonau da yn cael eu cadw yn y rhan fwyaf o feysydd, a threfniadau priodol ar waith. Roedd gwelliant hefyd yn amlwg mewn labordai a oedd wedi codi pryderon yn y gorffennol.

Nodwyd sawl mater bioddiogelwch cymharol fân mewn un labordy ymchwil, yn benodol oherwydd diffyg perchnogaeth o ran rheoli'r labordy o ddydd i ddydd. Roedd camau dilynol yn cynnwys ymweliadau dirybudd gan reolwr y coleg a phennaeth yr ysgol, amnewid offer mawr i gynyddu lle, a phenodi cefnogaeth leol. Bydd monitro bioddiogelwch yn parhau yn 2023/24 gydag ymweliadau ac archwiliadau rheolaidd o ddetholiad eang o feysydd.

- **YMBELYDREDD**

Mae Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd y brifysgol yn goruchwylio gwaith ymbelydredd gwyddonol, defnydd o belydrau-X a defnydd o laserau pŵer uwch. Cynyddodd y cyfarfodydd i ddau y flwyddyn yn 2023.

Ymwelodd Ymgynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA) allanol arbenigol y brifysgol â phob maes perthnasol (nad yw'n ymwneud â laser) yn ystod y flwyddyn i gadarnhau bod y gofynion deddfwriaethol ac arfe da yn cael eu bodloni. Nid oedd unrhyw ganfyddiadau andwyol arwyddocaol.

Mae llwyddiant parhaus ymchwil arbenigol y brifysgol yn golygu mai cynyddu y mae'r gwaith gyda deunyddiau ymbelydrol, ac mae hynny'n debygol o ehangu ymhellach dros y blynyddoedd sydd i ddod. I gefnogi hynny, mae goruchwyliaeth a chefnogaeth ychwanegol ar gael gan Ymgynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a swyddogion y brifysgol.

Mae Swyddog Diogelwch Laser (LSO) y brifysgol yn goruchwylio holl agweddau iechyd a diogelwch y defnydd ar laserau Dosbarth 3b a Dosbarth 4. Parhaodd y swyddog diogelwch laser â'r gwaith goruchwylio trwy gydol y pandemig ac ni chodwyd unrhyw faterion o bwys.

Bu 1 digwyddiad laser o bwys yn ystod y flwyddyn pan ddiystyrwyd cyd-gloi. Ni wnaed unrhyw niwed ac arweiniodd y weithred anawdurdodedig at gamau disgyblu.

## 3. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd **unrhyw** gamau gorfodi yn erbyn y brifysgol yn 2022/23.

- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Cysylltodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar ôl cwyn nad oedd y brifysgol yn darparu man gorffwys/cegin addas mewn adeilad swyddfa bach. Ymchwiliwyd i hyn ar unwaith a'i ddatrys, a chafodd yr achos ei gau'n ffurfiol gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o fewn tri diwrnod. Ni chymerwyd unrhyw gamau

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

Ymwelodd Arolygydd Cyfoeth Naturiol Cymru â meysydd ymchwil perthnasol lle cedwir a defnyddio rhai deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio, i gadarnhau bod rheolaeth briodol ar risgiau amgylcheddol. Ni nodwyd unrhyw bryderon, a rhoddwyd y dangosydd perfformiad gorau o ran cydymffurfio i'r cyfleusterau a'r trefniadau rheoli.

## 4. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

Yn ystod y flwyddyn academaidd, parhaodd y cynnydd yn y ddarpariaeth hyfforddiant iechyd a diogelwch 'yn y cnawd', a'r defnydd o hyfforddiant ar-lein i staff newydd a defnyddwyr cyfrifiaduron.

Yn 2022/23, cafodd nifer gynyddol o gyrsiau eu darparu neu eu hwyluso trwy'r tîm iechyd a diogelwch canolog, gan gynnwys hyfforddiant rheoli iechyd a diogelwch, megis cymhwyster IOSH ar reoli'n ddiogel a sesiynau briffio iechyd a diogelwch ar lefel weithredol. Mae nifer o aelodau staff hefyd wedi ennill tystysgrif neu ddiploma cenedlaethol iechyd a diogelwch, a ddarperir trwy gyrff allanol.

| Blwyddyn | Nifer y Cyrsiau / Sesiynau | Staff a Myfyrwyr Ôl-radd |
|---|---|---|
| **2022/23** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **1,148** |
| | *45 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *161* |
| | *Cyfarpar Sgriniau Arddangos (DSE) ar-lein* | *755* |
| | Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein | *232* |
| **2021/22** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **408** |
| | *31 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *86* |
| | *Cyfarpar Sgriniau Arddangos (DSE) ar-lein* | *158* |
| | Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein | *164* |
| **2020/21** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **2,898** |
| | *8 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *25* |
| | *Cyfarpar Sgriniau Arddangos (DSE) ar-lein* | *154* |
| | Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein | *125* |
| | *Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Covid ar-lein* | *2594* |

Nid oes cofnodion (ar gael yn ganolog) o'r hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarperir yn lleol gan golegau a gwasanaethau, neu o'r hyfforddiant a geir trwy ddarparwyr allanol. Rhagwelir y bydd colegau, gwasanaethau ac unigolion yn gallu cofnodi hyfforddiant iechyd a diogelwch o 2023/24, trwy'r system gofnodion newydd.

- **SESIYNAU CYNEFINO CYFFREDINOL I'R STAFF**

| CYMHARU PERFFORMIAD |  |
|---|---|

*Defnyddir sesiynau cynefino cyffredinol i'r staff fel dangosydd perfformiad allweddol o ran iechyd a diogelwch sefydliadol.*

**Targed:** 90% oedd targed 2022/23, ond methwyd â'i gyrraedd. Cwblhaodd **232** allan o **347** o'r aelodau staff newydd (*fel bo'n berthnasol*) oedd o dan gontract hyfforddiant cynefino cyffredinol staff y brifysgol. *Bydd targed 2023/2024 yn aros ar 90%.*

Nid yw iechyd a diogelwch wedi ei gynnwys mwyach yn y rhaglen gynefino i staff newydd yn y cnawd a defnyddir cyfraddau cwblhau'r modiwl iechyd a diogelwch ar-lein fel mesur ar gyfer y dangosydd perfformiad allweddol.

Dylai cyflwyno hyfforddiant iechyd a diogelwch ar-lein gorfodol yn 2023/24 liniaru'r posibilrwydd o aelodau staff heb unrhyw gofnod o gynefino iechyd a diogelwch.

| 90% oedd targed 2022/23 | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran y staff newydd (a wahoddwyd) a aeth i sesiwn gynefino iechyd a diogelwch ganolog y brifysgol[1] | **66.86%** | **Dirywiad** o 68.91% ar berfformiad 20/21 |

***Cofiwch:*** *Ni chaiff sesiynau cynefino mewnol ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch (ar lefel Ysgol/Gwasanaethau/Grŵp Ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol.*

- **HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**


| **CYMHARU PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

Defnyddir hyfforddiant defnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) fel dangosydd perfformiad allweddol wedi ei dargedu ar gyfer iechyd a diogelwch y sefydliad. Mae hyfforddiant perthnasol yn ofynnol dan y rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos.

**Sylwer**: *Mae newid i'r polisi a wnaed yn 22/23 bellach yn ei wneud yn ofynnol i bob aelod staff gynnal hunanasesiad cyfarpar sgrin arddangos bob 3 blynedd, gan adlewyrchu safonau cenedlaethol. Mae'r newid hwn wedi effeithio ar y dangosydd perfformiad allweddol oherwydd, yn y gorffennol, roedd perfformiad yn cael ei fesur ar asesiad o fewn y 4-7 mlynedd diwethaf.*

| 85% oedd targed 2022/23 o'r holl ddefnyddwyr cyfarpar sgrin arddangos | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran defnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein a'r hunanasesiad | **50.7%** | **Tueddiad am i lawr** --- 85% o ddefnyddwyr cyfarpar sgrin arddangos gydag asesiadau diweddar yw targed 2023/24 o hyd. |

Yn ystod 2022/23, cwblhaodd **755** (158 yn 21/22) aelod staff yr hyfforddiant a hunanasesiad defnyddwyr cyfrifiaduron ar-lein, gan arwain at tua 50.7% o'r defnyddwyr cyfrifiaduron amcangyfrifedig yn cwblhau'r hyfforddiant o fewn y cyfnod o 3 blynedd.




Nodwyd y gostyngiad yn nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant cyfarpar sgrin arddangos. Caiff yr hyfforddiant ei hyrwyddo'n ychwanegol yn 2023/24.

Mae'r tabl isod yn dangos % y defnyddwyr cyfrifiaduron a gwblhaodd yr hunanasesiadau (y gyfradd gwblhau) ymhob coleg, ysgol a gwasanaeth proffesiynol.[2]

| **Coleg/Gwasanaeth** | **% y Cyfarpar Sgrin Arddangos** |
|---|---|
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas | 34% |
| Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg | 61% |
| Coleg Meddygaeth ac Iechyd | 36% |
| Canolfan Bedwyr | 59% |
| Gwasanaethau Digidol | 13% |
| Gwasanaethau Cyllid | 66% |

[1] Nid yw'r ffigur yn cynnwys rhai staff llaw, staff a gaiff eu talu fesul awr a staff achlysurol sy'n gorfod cwblhau sesiynau cynefino iechyd a diogelwch lleol

[2] Mae'r data hwn yn seiliedig ar y staff a oedd yn gyflogedig ar 31 Gorffennaf 2023

| | |
|---|---|
| Adnoddau Dynol | 67% |
| Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio | 77% |
| Gwasanaethau Campws | 76% |
| Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil | 95% |
| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr | 62% |
| Undeb y Myfyrwyr | 73% |
| Swyddfa'r Is-ganghellor | 22% |

- **CYMHWYSEDD**

Pennir lefelau cymhwysedd ac ymwybyddiaeth ar gyfer y gwahanol swyddogaethau a swyddi uwch arwain a rheoli. Defnyddir canran y staff perthnasol sydd wedi ymbresenoli neu gymryd rhan mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch wedyn fel mesur o berfformiad. Dyma'r disgwyliadau sylfaenol o ran cymhwysedd a hyfforddiant:

**Y Cyngor:** Presenoldeb neu gyfranogiad mewn sesiwn briffio bwrpasol ar gyfer swyddogaethau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch cyrff llywodraethu.

**Bwrdd Gweithredol:** Presenoldeb neu gyfranogiad mewn sesiwn briffio bwrpasol ar gyfer swyddogaethau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch y Bwrdd Gweithredol.

**Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol** Presenoldeb mewn sesiwn briffio iechyd a diogelwch ar lefel cyfarwyddwr neu hyfforddiant ar lefel cyfarwyddwr, neu hyfforddiant rheoli iechyd a diogelwch.

**Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch** Cafodd lefel hyfforddiant NEBOSH 'IOSH Rheoli'n Ddiogel' neu 'gwrs pwrpasol' ei sefydlu i bob coleg/gwasanaeth proffesiynol, gan ddibynnu ar eu proffil risg.

| | Lefel hyfforddiant a gyflawnwyd |
|---|---|
| Y Cyngor | **100%** |
| Bwrdd Gweithredol | **92%** |
| Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol | **77%** |
| Cydlynydd/Swyddog Iechyd a Diogelwch (13) | **69%** |

## 5. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

**CYMHARU PERFFORMIAD**




Fel y rhagwelwyd, cynyddodd cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn 2022/23. Y flwyddyn lawn gyntaf (ers 2019) heb unrhyw gyfyngiadau Covid.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, derbyniwyd **303** o adroddiadau am ddigwyddiad (ac eithrio chwaraeon), a oedd yn fwy na'r 125 a adroddwyd yn 21/22 a'r 77 a adroddwyd yn 20/21, a oedd yn gyfnodau oedd yn cynnwys cyfyngiadau Covid.

Mae cyfanswm yr adroddiadau a dderbyniwyd (**303)** yn gynnydd ar y **230** a dderbyniwyd yn 2018/19, y flwyddyn ddiwethaf heb gyfyngiadau Covid, ac o bosib yn adlewyrchu'r ymdrech a wnaed i sicrhau bod y drefn adrodd yn digwydd. Roedd llawer o'r adroddiadau ychwanegol a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod hwn yn ymwneud â damweiniau a fu bron â digwydd ac adroddiadau am sefyllfaoedd/arferion a allai fod yn anniogel, nas adroddwyd amdanynt yn y gorffennol efallai.


Roedd **61** o adroddiadau'n ymwneud ag 'anaf' i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr awdurdodedig (roedd *26* yn 2021/22), **215** o adroddiadau y cyfeiriwyd atynt fel digwyddiadau nad oeddent yn cynnwys anaf (gan gynnwys damweiniau a fu bron â digwydd, sefyllfaoedd peryglus neu anniogel, arfer anniogel, larymau tân yn canu, mynd yn sownd mewn lifftiau, digwyddiadau yn ymwneud â myfyrwyr y tu allan i reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol y brifysgol). Mae'r adroddiadau sy'n weddill yn ymwneud â digwyddiadau meddygol (fel llewygu, salwch a ffitiau).




- **DAMWEINIAU'N CYNNWYS ANAFIADAU I STAFF A MYFYRWYR**

Mae nifer y damweiniau oedd yn cynnwys anafiadau i staff a myfyrwyr wedi mynd yn ôl i'r un lefelau ag yr oeddent cyn y pandemig.

Anafiadau i Staff a Myfyrwyr




Yn 2020/21, **49** oedd nifer y damweiniau i staff a myfyrwyr yr adroddwyd amdanynt a achosodd anaf o ganlyniad i'w gwaith neu eu hastudiaethau yn y brifysgol neu a ddigwyddodd yn y brifysgol *(18 yn 21/22)*. O'r cyfanswm hwn, roedd **43** *(14 yn 21/22)* yn ddamweiniau'n ymwneud â staff a **6** *(*4 yn 21/22) yn ymwneud â myfyrwyr.

Yn ychwanegol at adroddiadau o ddamweiniau'n cynnwys anafiadau i staff/myfyrwyr, cafwyd **12** yn rhagor (*8 yn 21/22*) o adroddiadau am ddamweiniau'n cynnwys anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr. Mân ei natur oedd pob un.

- **ANAFIADAU PENODOL (DIFRIFOL).**

Nid oedd unrhyw "anafiadau penodol" (yn unol â diffiniad RIDDOR) yn ystod y flwyddyn. *Byddai'r adran hon yn cynnwys torasgwrn, sgaldiadau sydd angen triniaeth yn yr ysbyty, colli ymwybyddiaeth, llosgiadau difrifol, ac ati.*


- **CYFRADD Y DAMWEINIAU'N CYNNWYS ANAFIADAU (fesul 1000 mewn Risg)**

**Staff**

Roedd cymhareb y damweiniau a achosodd anaf i staff yn **21.5** o ddamweiniau i bob 1,000 o weithwyr yn 2022/23 Er bod cynnydd o'r **6.9**/1000 a adroddwyd yn 2021/22, mae hyn yn debyg i'r gymhareb yn y blynyddoedd cyn y pandemig.[3]

Y gyfradd genedlaethol yn 2021/22 (y data diweddaraf sydd ar gael) oedd **13.85**/1000 *(cyfrif pennau).*

Damweiniau'n cynnwys anafiadau
yn y sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000
**o aelodau STAFF** (2005 – 2022/23)




| 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22.4 | 16.5 | 22 | 21 | 11.5 | 9.6 | 6.9 | 21.5 |
| 23.48 | 25 | 23.64 | 21.05 | 14.62 | 10 | 13.85 | |


**Myfyrwyr**

Yn 2022/23, bu **6** (4 *yn 21/22*) o ddamweiniau'n cynnwys anafiadau i fyfyrwyr yn uniongyrchol o ganlyniad i'w hastudiaethau, neu weithgarwch yn y brifysgol. Cymhareb o **0.5** (*0.3 yn 21/22*) damwain fesul pob 1,000 o fyfyrwyr [4]

[3]Ar sail 1,997 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn

Yn seiliedig ar 12,070 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn

Damweiniau'n cynnwys anafiadau yn y sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 o **FYFYRWYR** (2005 – 2022/23)




| 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.4 | 2.4 | 1.5 | 1.3 | 0.6 | 0.7 | 0.3 | 0.5 |
| 2.6 | 2.7 | 2.6 | 2.9 | 1.83 | 1.27 | 2 | |

- **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

Yn 2022/23, bu **2** ddamwain / digwyddiad adroddadwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae hynny'n cyfateb i **0.08/1000** o fyfyrwyr.

Roedd 1 RIDDOR yn ymwneud â myfyriwr wedi anafu ei fys ar ôl dod i gysylltiad â llafn y llif band – roedd angen triniaeth yn yr ysbyty ar yr anaf. Roedd yr ail RIDDOR yn ymwneud ag aelod staff wedi syrthio ar risiau mewn tywydd rhewllyd a arweiniodd at gymryd mwy na 7 niwrnod i ffwrdd o'r gwaith o ganlyniad i'r anaf.


0.5/1000 yw cyfradd RIDDOR **staff** Prifysgol Bangor am eleni . Y gyfradd yn 2021/22 oedd sero.

| Blwyddyn | Staff | Myfyrwyr | Ymwelwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2021/22 | 0 | 1 | 0 | **1** |
| 2020/21 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2019/20 | 1 | 0 | 0 | **1** |
| 2018/19 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2017/18 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| 2016/17 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |

Nid oedd **unrhyw** afiechydon galwedigaethol na digwyddiadau peryglus i adrodd yn eu cylch yn 2022/23.


- **ACHOSION DAMWEINIAU'N CYNNWYS ANAFIADAU (pob damwain)**

Roedd mwyafrif y **61** adroddiad am anafiadau yn ymwneud naill ai â digwyddiad codi a chario (15 = 25%), rhywun yn cael ei daro gan rywbeth a oedd yn symud (10 = 16%); llithro, baglu neu syrthio (24 = 39%); rhywun yn taro rhywbeth sefydlog (6 = 10%); arall (6 = 10%).




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I AELODAUSTAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Cofnodwyd 11 o achosion o golli amser ymhlith staff yn 2022/23, cynnydd sylweddol ar y ffigurau hanesyddol.



Dyma'r 11 digwyddiad a achosodd golli amser o'r gwaith:

- 1 – salwch gastroberfeddol ar ôl cymryd samplau dŵr ar y traeth a oedd wedi bod yn destun rhybudd carthffosiaeth.
- 1 – poen yn y goes: roedd yr unigolyn a nodwyd wedi ei anafu gan y dodrefn gwaith / gosodiad yn ei le gwaith.
- 1 - torri un o fysedd y droed ar ôl gollwng bwrdd mesur pysgod arno.
- 1 – poen yng ngwaelod y cefn a'r glun: wedi ei daro gan ddrws a agorwyd arnynt.
- 1 – taro pen yn erbyn ochr cerbyd gwaith.
- 1 – llithro ar rew ar risiau allanol gan arwain at niwed difrifol i'r gewynnau.
- 1 - ffibr pren yn mynd i mewn i'r llygad.
- 1 - troi ffêr ac ysgwydd ar ôl baglu ar ris wrth fynd trwy ddrws yn cario bagiau personol.
- 1 – troi ffêr ar ôl disgyn ar y grisiau.
- 1 – poen yn y gwddf a'r ysgwydd ar ôl codi parsel, a oedd wedi disgyn oddi ar droli, yn ôl ar y troli.
- 1 – tynnu cyhyrau'r gwddf wrth symud offer arlwyo.


- **DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON**

Cafwyd **130** o adroddiadau am ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel mewn rhai chwaraeon.

- **DIGWYDDIADAU TEITHIO TRAMOR**


Cofnododd staff a myfyrwyr **861** o deithiau tramor cysylltiedig â gwaith y brifysgol yn ystod 2022/23, cynnydd o 124% o gymharu â 2021/22 - a oedd yn gyfnod a oedd yn parhau'n destun i rai cyfyngiadau teithio COVID-19.

Nodwyd bod **861** o deithiau tramor yn parhau i fod yn sylweddol is na 2018/19, y flwyddyn ddiwethaf cyn i'r cyfyngiadau COVID-19 ddechrau.




Gwnaed 13 o hawliadau 'yswiriant' teithio tramor yn 2022/23, gyda **6** hawliad meddygol neu gysylltiedig ag iechyd:

- 2 oherwydd bod pobl wedi mynd yn sâl cyn teithio ac wedi methu â hedfan.
- 1 oherwydd costau brys ar ôl dal teiffoid a bod rhaid iddynt gael llety, gwesty a phrydau bwyd tra oeddent mewn cwarantîn.
- 3 oherwydd salwch cyffredinol tra dramor.




Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau eleni.

- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU**

Cerbydau Llog y Brifysgol (prif ddarparwr).
Mae'r agwedd hon ar ddefnyddio cerbydau yn cael ei gwerthuso fel dangosydd risg ar gyfer 'gyrru cysylltiedig â gwaith' gan ddefnyddio cerbydau llog.

Yn ystod 2022/23, ac o ddefnyddio data gan y prif ddarparwr cerbydau llog, cafwyd ***409*** o achosion o

logi ceir neilltuol dros gyfanswm o **1,124** o ddiwrnodau (***290*** *yn 2021/22)*.

Cyfanswm y pellter a deithiwyd oedd **123,801**[5] (*93,753 o filltiroedd yn 21/22 a 255,090 yn 17/18 y flwyddyn lawn olaf cyn y pandemig).*

SYLWER: *Nid yw'r data uchod yn cynnwys y Grŵp Ymchwil COVID, sy'n llogi cerbydau o bob rhan o'r wlad*.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed **4** hawliad yswiriant am fân ddifrod. Roedd y rhain yn cynnwys bymper wedi ei grafu, drych ochr wedi torri, cerbyd wedi ei ddifrodi gan bobl eraill.

Ni anafwyd neb o ganlyniad i'r digwyddiadau hynny ac ni adroddwyd am unrhyw anaf arall a ddigwyddodd oherwydd teithio gyda cherbydau llog ar waith y brifysgol.

| Prif Ddarparwr Cerbydau Llog: Nifer y digwyddiadau[6] | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2017/18** | | **2021/22** | | **2022/23** | |
| Cyfanswm y Diwrnodau | Cyfanswm y Milltiroedd | Cyfanswm y Diwrnodau | Cyfanswm y Milltiroedd | Cyfanswm y Diwrnodau | Cyfanswm y Milltiroedd |
| 1,810 | 255,090 | 741 | 93,753 | 1,124 | 123,801 |
| Gan gynnwys/Diwrnodau | Gan gynnwys/ Milltiroedd | Gan gynnwys/Diwrnodau | Gan gynnwys/ Milltiroedd | Gan gynnwys/Diwrnodau | Gan gynnwys/ Milltiroedd |
| 4.4 / 1000 o ddiwrnodau | 3.18 / 100 mil o filltiroedd | 9.4 / 1000 o ddiwrnodau | 7.5/ 100 mil o filltiroedd | 3.56/ 1000 diwrnod | 3.23 / 100 mil o filltiroedd |
| CYFANSWM YR ANAFIADAU | | CYFANSWM YR ANAFIADAU | | CYFANSWM YR ANAFIADAU | |
| 0 | | 0 | | 0 | |

Sylwer: mae'r tabl hwn yn berthnasol i'r prif ddarparwr cerbydau llog yn unig.

Fflyd Cerbydau'r Brifysgol

Gwasanaethau'r Campws yw'r defnyddiwr cerbydau unigol mwyaf yn y brifysgol, ac yn 2022/23 roedd 33 o gerbydau ar y ffordd ganddynt. Roedd gan weddill y colegau a'r gwasanaethau 9 cerbyd arall (nid yw hyn yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr).

Teithiodd y **43** o gerbydau yr oedd y brifysgol yn berchen arnynt/ar brydles ganddi **137,316** o filltiroedd yn ystod y flwyddyn.

Gwnaed 1 hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i gerbyd ar ôl gwrthdrawiad â phostyn. Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau.

Cerbydau Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'i yswirwyr ei hun. Mae'r Undeb yn 'berchen ar/prydlesu' 7 cerbyd: sef 4 bws mini, 2 MPV a 2 fan transit.

Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau mewn damweiniau ffyrdd ac ni wnaed unrhyw hawliadau yswiriant.

Adroddwyd mai cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd gan gerbydau UM yn 2022/23 oedd **2,702.5**. *Er ei fod yn uwch na 2020/21 pan deithiodd cerbydau Undeb y Myfyrwyr 1,441 o filltiroedd, mae hyn yn dal yn sylweddol is na'r 35,074 a deithiwyd yn 2019/20.*

- **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW)**


Yn ogystal â'r gwaith rheoli a goruchwylio beunyddiol, bydd staff Gwasanaethau'r Campws yn cynnal archwiliadau safle iechyd a diogelwch ffurfiol i gadarnhau a monitro bod contractwyr a staff cynnal a chadw'r brifysgol yn gweithio'n ddiogel.

Mae'r archwiliadau hynny'n ceisio cadarnhau nad oes neb yn cael ei roi mewn perygl oherwydd contractwr i Wasanaethau'r Campws neu weithgareddau cynnal a chadw.

Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd **282** o arolygiadau safle ffurfiol, sef cynnydd sylweddol o gymharu â 2021/22.

[5] Data a ddarparwyd gan brif gyflenwr ceir llog y brifysgol, Aberconwy Car Hire

[6] Gan ddefnyddio cyfanswm y digwyddiadau (4) fesul **diwrnodau llogi a milltiroedd** ar gyfer un darparwr cerbyd (llogi), ac eithrio Grŵp Ymchwil COVID, nid oedd cofnodion milltiroedd cywir ar gyfer y Grŵp COVID ar gael am y cyfnod hwn o flwyddyn, felly nid yw eu 4 digwyddiad wedi eu cynnwys yn y gyfradd




*Mae'r siart uchod yn dangos cyfanswm yr archwiliadau safle a gynhaliwyd, a % y rhai a arsylwyd fel rhai o safon dda, rhoi rhybudd neu dor-amod difrifol.*

Mae'n ofynnol hefyd i staff y contractwr gwblhau sesiwn gynefino ynghylch safonau gwaith a diogelwch penodol Gwasanaethau'r Campws. Yna bydd modd trosglwyddo'r wybodaeth honno i weithwyr y contractwr ei hun a'r isgontractwyr. Yn ystod 2022/23, darparwyd **142** o sesiynau cynefino (70 yn 2021/22).


## 6. ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH YMYSG STAFF

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** (*diwrnodau/CALI*) |  |
|---|---|

*Sylwer: Adroddiad Blynyddol 2022/23 fydd yr olaf i gynnwys gwybodaeth fanwl am absenoldebau salwch. Adroddir ar yr agwedd hon trwy'r adran Adnoddau Dynol yn y dyfodol. Bydd data a chyfraddau cryno achosion am absenoldebau yn aros.*

Mae'r brif gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i godi tuag at yr un lefelau ag yr oedd cyn y pandemig.

Yn 2022/23, collwyd **8,584** o ddiwrnodau gwaith o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch (a adroddwyd). Mae hynny'n gyfystyr â chyfradd absenoldeb oherwydd salwch ymysg y staff o oddeutu **5.20** diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth ag amser-llawn[7] (3.9 diwrnod yn 2021/22). **5.9** diwrnod oedd cyfartaledd y sector yn genedlaethol yn 2022/23, fel yr adroddwyd gan UCEA.





Ar gyfer cyd-destun: *O gymharu â sefydliad lleol, adroddodd Cyngor Ynys Môn **9.15 diwrnod** (CALl) yn 2022/23. Ymhellach i ffwrdd, adroddodd Gwasanaeth Sifil Cymru gyfradd absenoldeb o **9 diwrnod** yn 2021/22, adroddodd Gwasanaeth Sifil y Deyrnas Unedig gyfradd absenoldeb o **7.9** niwrnod, ac adroddodd CIPD bod cyfradd gyfartalog absenoldeb staff, ar draws holl gyflogwyr y Deyrnas Unedig, bellach yn **7.8** niwrnod fesul aelod staff y flwyddyn.*

*Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio ar % yr amser a gollir oherwydd absenoldeb salwch ac yn amcangyfrif cyfradd y Deyrnas Unedig, ledled y farchnad lafur gyfan, yn **2.6%** yn 2022.*

**5.20 diwrnod** oedd cyfradd absenoldeb salwch Prifysgol Bangor yn 2022/23, sy'n cyfateb i golli oddeutu **2.39%** o'r amser gwaith[8] oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2021/22 oedd **1.79%**.

[7]Seiliedig ar CALl ar gyfartaledd yn 2022/23 o 1649.916

[8]Yn seiliedig ar flwyddyn waith o 260.715 diwrnod gwaith ar gyfartaledd




Yn 2022/23, cadarnhawyd 80.6% (6,919 o ddiwrnodau gwaith, a addaswyd ar gyfer CALl) o’r holl absenoldebau salwch gan dystysgrif feddygol, ac roedd y gweddill, sef 19.4% (1,665 o ddiwrnodau gwaith, a addaswyd ar gyfer CALl) yn rhai hunanardystiedig.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod gwaith, yn **63.97%** (5,491 o ddiwrnodau gwaith o absenoldeb, a addaswyd ar gyfer CALl) o'r holl ddiwrnodau o absenoldeb a adroddwyd, ac roedd gostyngiad o **12.03%** ers 2021/22.

| **Canran yr absenoldeb oherwydd salwch hirdymor** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
| **Bangor** | 64.0% | 56.7% | 72.4% | 57.1% | 64.0% |
| **Sector** | 54.6% | 56% | 62.1% | 53.4% | 54.9% |

- **ABSENOLDEB SALWCH: % Y STAFF**

Adroddodd **509 o aelodau staff** *(cyfrif pennau)* am absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn. Mae hynny’n cyfateb i oddeutu **25.49%** o’r aelodau staff. 20.5% oedd y gyfradd yn 2021/22, 18.14% yn 2020/21, 26.23% yn 2019/20 a 28.91% yn 2018/19.

Felly gall y brifysgol adrodd na adroddodd **74.51%** o’r staff yr un achos o absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn.

- **TABL MEINCNOD ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH (UCEA)**

Mae'r adran hon, sy’n cyfeirio at adroddiad meincnod UCEA **2022/23**, yn darparu gwybodaeth sy’n cymharu Prifysgol Bangor â'r sector cyfan, ac ag is-set y prifysgolion sy'n rhannu'r un **nodweddion** (Cyn-92) a **maint** (bach).

*Mae UCEA yn diffinio sefydliad fel un "bach" os oes ganddo lai na 2000 o weithwyr CALl.* Mae **14** sefydliad yn yr un 'is-set' â Phrifysgol Bangor.

| **ADRODDIAD UCEA 2022/23** | | Pob Sefydliad (118) Addysg Uwch | | Sefydliadau Addysg Uwch bach Cyn-92 (14) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur (CALl) | Bangor (PB) | Meincnod | Safle PB | Meincnod | Safle PB |
| **Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd** (diwrnodau) | 5.2 | 5.9 | 33 | 5.6 | 6 |
| **%** y diwrnodau gwaith a gollwyd | 2.4% | 2.7% | 36 | 2.6% | 7 |
| **Cyfnod o absenoldeb ar gyfartaledd (diwrnodau)** | 8.5 | 6.1 | 104 | 6.1 | 13 |
| **Diwrnodau gwaith tymor byr a chanolig a gollwyd** (diwrnodau) | 1.9 | 2.6 | 13 | 2.4 | 3 |
| **% yr absenoldeb salwch hirdymor** | 64.0 % | 54.9 % | 98 | 56.9% | 12 |

Mae'r canlynol yn grynodeb o achosion absenoldeb salwch **2022/23**, fel y darperir gan adroddiad meincnod UCEA.

| **Pob Absenoldeb Salwch**<br>(tymor byr, canolig a hir) | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori Absenoldeb** | **Prifysgol Bangor** | Pob un (118) | Sefydliadau Addysg Uwch bach Cyn-92 (14) |
| **RESP** - Asthma a phroblemau eraill ar y frest/anadlol gan gynnwys niwmonia, broncitis, pliwrisi | 2.8% | 3.9% | 3.3% |
| **CNCR** - Canserau a thiwmorau (anfaelan a malaen) | 8.9% | 3.9% | 3.6% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **COLD** - Annwyd, peswch, ffliw | 9.8% | 15.7% | 13.5% |
| **DEGP** - Diabetes a phroblemau endocrin/chwarennol eraill (e.e. diabetes, thyroid, metabolig) | 0.1% | 0.3% | 0.3% |
| **ENTD** - Problemau llygaid, clust, trwyn, gwddf a deintyddol | 3.2% | 3.0% | 2.5% |
| **GNIT** - Anhwylderau cenhedlol-droethol a gynaecolegol, ac eithrio beichiogrwydd | 3.3% | 1.4% | 1.5% |
| **MIGR** - Cur pen, meigryn a'r system niwrolegol/nerfol | 5.9% | 3.7% | 2.9% |
| **MENP** - Symptomau'r menopos neu'r perimenopos | 0.0% | 0.1% | 0.0% |
| **HEBL** - Anhwylderau'r galon, cylchrediad y gwaed a'r gwaed | 3.9% | 2.5% | 3.0% |
| **OPER** - Llawdriniaeth/adferiad/apwyntiad meddygol* | 5.4% | 6.2% | 6.7% |
| **INBP** - Anaf, llosgiadau a gwenwyno | 8.4% | 3.4% | 2.5% |
| **MNTL** - Iechyd meddwl gan gynnwys blinder, gwendid nerfol, camddefnyddio alcohol/cyffuriau | 28.5% | 27.4% | 26.9% |
| **MUSC** - Cyhyrysgerbydol, yn cynnwys problemau cefn/gwddf, twnnel y carpal, tendonitis | 7.2% | 8.5% | 10.1% |
| **INFC** - Clefydau heintus eraill (e.e. yr eryr) | 0.0% | 1.2% | 0.6% |
| **PREG** - Anhwylderau cysylltiedig â beichiogrwydd | 0.4% | 0.9% | 0.9% |
| **SKIN** - Anhwylderau'r croen | 0.2% | 0.4% | 0.4% |
| **STMC** - Problemau'r stumog / treulio / gastroberfeddol (e.e. chwydu, gastroenteritis, dolur rhydd) | 6.3% | 5.8% | 4.9% |
| **LCD** - Symptomau sy'n deillio o ddiagnosis o Covid hir | 4.6% | 1.7% | 1.4% |
| **OTHR** - Achosion hysbys eraill nad ydynt yn dod o dan y categorïau UCEA | 1.1% | 5.6% | 6.5% |
| **UNKN** - Achosion anhysbys/heb eu nodi ** | 0.0% | 4.3% | 8.5% |

•

## • CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnodau absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2022/23, o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny.

Nodir y daeth y rhan fwyaf o absenoldebau (tymor hir), **65%**, i ben o fewn cyfnod o 2 fis.


| Absenoldebau hwy nag 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2022/23 (cymharydd 2021/22, 2020/21, 2019/20, ac 2018/19) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod yr absenoldeb mewn misoedd | Nifer yr Achosion yn 2018/19 | Nifer yr Achosion yn 2019/20 | Nifer yr Achosion yn 2020/21 | Nifer yr Achosion yn 2021/22 | Nifer yr Achosion yn 2022/23 |
| ≤2 | 67 | 55 | 53 | 49 | 67 |
| ≤3 | 8 | 21 | 17 | 11 | 19 |
| ≤4 | 6 | 5 | 5 | 5 | 8 |
| ≤5 | 7 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| ≤6 | 9 | 3 | 3 | 2 | 4 |
| ≤7 | 2 | 1 | 5 | 2 | 1 |
| ≤8 | 2 | 0 | 2 | 2 | 1 |
| ≤9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ≤10 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| ≤11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ≤12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


## • ACHOSION ABSENOLDEBAU OHERWYDD SALWCH

**Sylwer**: Mae grwpiau achosion yn cyfeirio at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion absenoldebau hunan-ardystiedig.


Unwaith eto, gwelir mai salwch seicolegol ac achosion cyhyrysgerbydol sy'n gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau yn ystod y flwyddyn.

Dyma ddosbarthiad y **diwrnodau a gollwyd** (amser i ffwrdd) ar gyfer prif gategorïau achosion absenoldeb




Dyma achosion yr absenoldebau hir dymor (niferoedd/digwyddiadau):




- **COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Mae'r tabl canlynol yn nodi 'diwrnodau cyfartalog' absenoldeb oherwydd salwch fesul CALl i bob coleg a gwasanaeth proffesiynol, o'i gymharu â chyfartaledd y brifysgol. [9]

*Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer y mesuriad hwn yn ymwneud â dyddiad penodol ac mae'n cyfeirio at y rhai a gyflogid ar ddiwrnod penodol. O ddefnyddio methodoleg 'dyddiad penodol', gwelwn fod cyfradd absenoldeb y brifysgol yn is na'r gyfradd gyfartalog CALl flynyddol o 5.2 diwrnod a adroddwyd, yn bennaf gan y bydd yn hepgor yr aelodau staff hynny a allai fod wedi gadael y sefydliad yn ystod y flwyddyn.*

| **Coleg / Gwasanaeth Proffesiynol** | **CYFRADD** | **CYFRADD** ac eithrio tymor hir |
|---|---|---|
| Y Brifysgol | 5.14 | 1.85 |
| Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas | 2.69 | 1.04 |
| Gwyddoniaeth a Pheirianneg | 2.43 | 0.81 |
| Meddygaeth ac Iechyd | 2.94 | 0.88 |
| Gwasanaethau Campws | 10.65 | 3.81 |
| Canolfan Bedwyr | 2.51 | 2.51 |
| Gwasanaethau Digidol | 13.81 | 4.72 |
| Gwasanaethau Cyllid | 6.14 | 2.87 |
| Adnoddau Dynol | 12.25 | 1.45 |
| Marchnata, Cyfathrebu, a Recriwtio | 3.10 | 1.17 |
| Strategaeth, Cynllunio ac Ymchwil | 0.14 | 0.14 |
| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr | 9.21 | 4.05 |
| Undeb y Myfyrwyr | 9.59 | 3.26 |
| Swyddfa’r Is-ganghellor | 1.66 | 0.39 |

[9] Mae'r data hwnnw’n seiliedig ar staff a gyflogid ar **ddyddiad penodol**, sef 31 Gorffennaf 2023

***Sylwer**: Byddwch yn ofalus wrth ddehongli prif gyfradd diwrnodau/CALl adrannau llai o faint oherwydd gall absenoldebau hir dymor niferoedd bach iawn o staff effeithio ar yr ystadegau. Er mwyn ein helpu i ddeall, cafodd ail golofn ei hychwanegu sy'n hepgor absenoldebau hir dymor.*

- **ABSENOLDEB SALWCH OHERWYDD COVID-19**

Adroddwyd y collwyd **757** o ddiwrnodau, a addaswyd ar gyfer CALl, oherwydd absenoldeb salwch a oedd yn ymwneud â COVID-19, a effeithiodd ar **102** aelod staff.

Roedd **3** achos o absenoldeb salwch tymor hwy (mwy nag 20 diwrnod) a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â COVID-19 ac roedd y rheiny'n cyfrif am **372.9** diwrnod o absenoldeb.

Priodolwyd cyfanswm o 1,018 diwrnod y flwyddyn flaenorol (2021/22) i bob achos o COVID-19, a effeithiodd ar **137** aelod staff.

- **CADW GOLWG AR IECHYD**

Cafodd oddeutu 107 aelod staff arolygon iechyd i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Rhoddir arolwg, o wahanol fathau, i aelodau staff os ydynt yn defnyddio offer sy'n dirgrynu ac yn gorfod dioddef lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i nifer o wyddonwyr ymchwil, staff technegol a staff sy'n cynnal tiroedd, gweithwyr shifftiau, gyrwyr sydd ar gontractau a rhai sy'n trin anifeiliaid.

Darperir arolygon iechyd yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai risgiau yn y gwaith yn cael effaith andwyol ar iechyd aelodau staff. Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol ar iechyd yn 2022/23.


## 7. LARYMAU TÂN YN CANU:

| CYMHARU PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Mae ystad y brifysgol yn meddu ar dros gant o adeiladau. Caiff y mwyafrif eu diogelu gan systemau canfod tân awtomatig a larymau tân. Mae tua 9,000 o synwyryddion mwg/gwres wedi eu gosod ledled yr ystad.


Yn ystod 2022/2023, cafwyd 125 o achosion o larymau tân yn canu yn adeiladau'r brifysgol, gostyngiad o 13% ar y 143 yn 2021/22.

Larymau Tân yn Canu 2012 – 22/23




Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r brifysgol **22** o weithiau, yr un faint â 20/21. Roedd **17** o'r achlysuron hynny (*27 yn 21/22*) i neuaddau preswyl gyda'r nos ac yn yr oriau mân (rhwng 8pm ac 8am).

Gellir is-rannu cyfanswm yr achlysuron (125) i ddynodi faint o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academaidd/gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystad y brifysgol.





Bu gostyngiad yn y nifer o weithiau y canodd y larwm tân mewn adeiladau academaidd a gweinyddol i **63** yn 2022/23 o 72 (21/22). Bu gostyngiad yn yr achlysuron o larymau tân yn canu yn y neuaddau preswyl i **62** yn 21/22, o 62 yn 2020/21, 41 yn 2019/20, 52 yn 2018/19, 59 yn 2017/18.

Bu 9 achos maleisus yn 2022/23 (11 yn 21/22).

<u>Cyfradd achosion canu larymau tân /1000 o ganfodyddion</u>

| Ystad | 22/23 | Tuedd |
|---|---|---|
| Neuaddau Preswyl[10] | 14.3/1000 | I lawr |
| Academaidd a Gweinyddol[11] | 13.6/1000 | I lawr |

<u>Larwm Tân yn Canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely - Bangor[12]</u>




| | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bangor** | 33 | 25 | 22 | 20 | 17.6 | 13.9[13] | 24 | 28.7 | 25 |

*Nid yw data'r cymaryddion cenedlaethol ar gael bellach

- **TANAU**

Roedd 1 tân mewn neuadd breswyl a oedd yn ymwneud â blanced drydan myfyriwr yn dechrau mudlosgi tra ar y gwely ac a ddechreuodd losgi'r gwely. Deliwyd â'r digwyddiad yn lleol gan y Tîm Diogelwch. Nodir bod yr holl fatresi yn y neuaddau yn rhai gwrth-dân.

Bu 13 o danau a 'fu bron â digwydd', a ddiffinnir fel digwyddiad "y bu mwg yn unig a dim fflamau". Roedd 11 o'r rheini yn y neuaddau, 10 oherwydd digwyddiadau coginio ac 1 oherwydd ysmygu mewn coridor. Achoswyd 2 mewn adeiladau academaidd gan dost yn llosgi.

Bu 3 thân mewn adeiladau academaidd/gweinyddol. 1 ar ôl i grwydriaid geisio llosgi boncyffion ym Mharc y Coleg. Achoswyd yr ail ym Mar Uno gan saim o dan sosban ffrio, a ganfuwyd wedyn i fod yn gydran a oedd yn gollwng, yn mynd ar dân ac a adroddwyd i'r Bwrdd Gweithredol. Y trydydd, bin metel mawr y tu allan i labordy Nuffield yn mynd ar dân ar ôl i farbeciw gael ei roi ynddo. Ar y pryd, roedd y bin ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio, ond mae wedi cael ei symud oddi yno ers hynny.

Bu tân arall hefyd ger un o adeiladau'r brifysgol. Dechreuodd unigolyn digartref dân yn agos i adeilad Thoday, daeth mwg i mewn i'r adeilad gan sbarduno'r larwm tân. Daeth y Gwasanaeth Tân i ddiffodd y tân.

## 8. HAWLIADAU SIFIL (IECHYD A DIOGELWCH / YN YMWNEUD Â DIGWYDDIAD)

Yn 2022/23, roedd **2** hawliad atebolrwydd cyhoeddus. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag aelod staff yn adrodd ei fod wedi cael anaf i'w lygad yn dilyn digwyddiad lle aeth ffibrau pren gwlyb i mewn i'w lygad. Yr ail, aelod staff a syrthiodd yn y gwaith.

## 9. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2022/23, roedd 19,652 **(-22%)** o ymweliadau unigryw â thudalennau gwe Iechyd a Diogelwch, sydd ar gael yn gyhoeddus, dyma'r 4 dudalen fwyaf poblogaidd:

- Mynegai A-Z
- Asesiadau Risg
- Cyfrifianellau Laser
- Nofio

Yn ogystal, bu 9,013 o ymweliadau â thudalennau gwe iechyd a diogelwch FyMangor (8,981 yn 21/22) sydd ddim ond yn hygyrch i staff a myfyrwyr Bangor.

**<u>Diwedd.</u>**

[10]Yn seiliedig ar 4335 o synwyryddion mewn neuaddau
Yn seiliedig ar 4630 o synwyryddion mewn adeiladau academaidd

[12]Yn seiliedig ar 2471 o ystafelloedd gwely
[13] Yn 2019/20, defnyddiwyd y ffigur o 2960 o ystafelloedd gwely